# Cynllun Hepgor Ffioedd i Israddedigion Rhan-Amser – pwy sy'n cael gwneud cais?

Mae'r canllawiau hyn yn bwysig. Dylech eu darllen **cyn** i chi lenwi'ch ffurflen hepgor ffioedd.

**MEINI PRAWF CYMHWYSTER**

Mae'r cynllun hwn ar gael i unrhyw fyfyriwr neu ddarpar fyfyriwr**, nad oes ganddynt Radd neu Radd Sylfaen eisoes** sy'n bodloni'r meini prawf a restrir isod. Er mwyn cael eich derbyn i'r cynllun hwn rhaid i chi fodloni meini prawf o dan ddau bennawd:

**1. Meini prawf y cwrs**

Rhaid i chi:

(a) fod yn astudio'n rhan-amser.
(b) fod wedi'ch cofrestru â'r Brifysgol, naill ai fel myfyriwr newydd neu fel myfyriwr sy'n parhau, ar raglen gyda'r nod o gael cymhwyster addysg uwch cydnabyddedig i israddedigion - megis Tystysgrif Celf a Dylunio, Tystysgrif Addysg Uwch, neu Ddiploma Addysg Uwch.
(c) fod yn astudio ar gwrs, modiwl neu uned sy'n cyfateb i ddeg credyd neu fwy, hyd at gyfanswm o 60 credyd mewn unrhyw un Flwyddyn Academaidd.
(d) gwblhau tasgau'r aseiniadau a roddir.

**2. Meini prawf personol**

Yn ogystal â bodloni meini prawf y cwrs, rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru ac yn bodloni UN o'r meini prawf personol isod:

(a) Rydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn cael:
- Credyd Cyffredinol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar Sail Incwm
- Budd-dâl Tai
- Credyd Pensiwn
- Gostyngiad Treth y Cyngor
- Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio

(b) Rydych chi yn cael:
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Gofalwr

(c) Rydych chi'n geisiwr gwaith cofrestredig ac rydych chi wedi bod felly am gyfnod o chwe wythnos yn ddi-dor hyd at ddyddiad y cais hwn.

(d) Yr unig incwm y byddwch yn ei gael yw incwm o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**TYSTIOLAETH**

Bydd angen inni weld tystiolaeth o ddogfennaeth swyddogol cyn eich cynnwys ar y cynllun i gael hepgor eich ffioedd. **Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi POB adran o'r ffurflen gais am Hepgor Ffioedd,**

**a'ch bod yn cynnwys y dystiolaeth hefyd, gan na allwn wneud penderfyniad hebddi.** Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf, er enghraifft, llythyr cyfredol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM, y Cyngor Lleol, neu Ganolfan Waith, yn cadarnhau eich bod yn gymwys.

## NEWID YN EICH AMGYLCHIADAU

Os bydd eich amgylchiadau yn newid yn ystod eich astudiaethau, mewn ffordd a fydd yn golygu na fyddwch ar dir i hepgor ffioedd, **rhaid** i chi roi gwybod inni cyn gynted ag y gallwch. Mewn achosion o'r fath, bydd rhaid talu ffi wedi'i gostwng, yn dibynnu ar faint o'r cwrs sydd yn weddill.

## PWYNTIAU CYFFREDINOL I'W HYSTYRIED

- Er mwyn cael hepgor ffioedd, bydd angen i chi gael eich asesu bob blwyddyn. Os cewch chi hepgor ffioedd, fe fyddwch yn gymwys am y Flwyddyn Academaidd gyfan (1 Awst tan 31 Gorffennaf) heblaw bod eich amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn (gweler y nodyn uchod). Ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd bydd eich hawl i hepgor ffioedd yn dod i ben ac fe fydd angen i chi wneud cais eto i'r flwyddyn nesaf os byddwch am barhau â'ch astudiaethau a chael hepgor ffioedd. Cofiwch ei bod yn bosib y bydd y meini prawf am hepgor ffioedd yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

- **Os ydych wedi cael hepgor ffioedd a chithau wedi cofrestru ar gwrs, rhaid i chi roi gwybod i'r Ysgol Addysg a Dysgu gydol Oes, cyn i'r cwrs ddechrau, os penderfynwch wedyn beidio â chymryd eich lle ar y cwrs. Os na wnewch chi roi gwybod i ni am hynny, bydd rhaid i chi dalu'r ffi yn llawn.**

- Nid oes cyfyngiadau ar oedran y sawl sy'n cael eu derbyn i'r cynllun yma.

- Dim ond ffioedd dysgu sy'n cael eu hepgor. Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol, megis ffioedd asesu neu arholi.

- Mae myfyrwyr sy'n gymwys i'r cynllun yn cael hawlio hyd at uchafswm o 360 o gredydau o'r gronfa yn ystod eu hastudiaethau, a allai gael eu rhannu ar draws sawl blwyddyn academaidd.

- Dim ond hyd at 60 credyd y cewch chi astudio o dan y cynllun hepgor ffioedd mewn unrhyw un Flwyddyn Academaidd. Os ydych am astudio am fwy na 60 credyd, ni fyddwch chi bellach ar dir i gael hepgor ffioedd ac fe fydd angen i chi dalu'r ffioedd am yr holl gyrsiau rydych am eu cymryd.

- **Os nad ydych yn cyflwyno gwaith cwrs i'w asesu, byddwch yn ildio'ch hawl i gael hepgor ffioedd ac fe fydd angen i chi dalu ffi'r cwrs.**

- Mae'r pob myfyriwr cartref rhan-amser yn gallu gwneud cais am gymorth o Gronfa Galedi'r Brifysgol. Am ragor o wybodaeth am y Gronfa Galedi, cysylltwch â'r Ymgynghorwr Cyllid Myfyrwyr yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr: ffôn 01970 621761 neu gweler http://www.aber.ac.uk/cy/student-finance/money-management/

## BETH I'W WNEUD NESAF

Llenwch y ffurflen gais am Hepgor Ffioedd amgaeedig a'i dychwelyd ataf yn y cyfeiriad uchod gyda'r dystiolaeth eich bod â hawl i fod yn rhan o'r cynllun. **Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob rhan o'r ffurflen, ac yn cynnwys y dystiolaeth, gan na fydd modd inni wneud penderfyniad hebddi.** Byddwch yn clywed gennym cyn gynted ag y byddwn wedi penderfynu ar eich cais.

Os nad ydych yn sicr a ydych â'r hawl i gael hepgor eich ffi ai peidio, cysylltwch â Marc Richards neu â Janet Nicholls ar 01970 621598 i drafod eich sefyllfa. Bydd pob ymholiad yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education and Lifelong Learning

# FFURFLEN GAIS AM HEPGOR FFIOEDD (Blwyddyn Academaidd 2013/14)

Llenwch **bob rhan o'r ffurflen** a'i hanfon, **gyda'r dystiolaeth**, at:

Marc Richards, Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, P5, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3UX.

| AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG: | Rhif Cofrestri'r Myfyriwr: ☐☐☐☐☐☐☐☐☐ |
|---|---|

## Manylion amdanoch chi:

| Cyfenw: | Enwau cyntaf (yn llawn): | Teitl: (Mr/Mrs/Ms) |
|---|---|---|
| Cyfeiriad cartref: | | Cod Post: |
| Ffôn gartref: | Ffôn symudol: | |
| Cyfeiriad e-bost: | | |

## Cymhwyster:

A oes gennych Radd neu Radd Sylfaen? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, **nid ydych yn gymwys** o dan amodau'r cynllun ar gyfer hepgor ffioedd

## Y cyrsiau rydych wedi cofrestru arnynt eleni:

**Pwysig – mewn unrhyw un Flwyddyn Academaidd cewch gofrestru ar gyrsiau hyd at gyfanswm o 60 credyd yn unig**

| Cod y cwrs | Teitl y cwrs | Dyddiad dechrau | Nifer o gredydau |
|---|---|---|---|
| | | / / | |
| | | / / | |
| | | / / | |

**Rwyf yn hawlio cael Hepgor Ffioedd ar y sail isod (ticiwch) ac rwyf yn amgáu'r ddogfennaeth berthnasol fel tystiolaeth:**

☐ Rwyf i, neu aelod o'm teulu yn cael (dilëwch fel y bo'n briodol):
Credyd Cyffredinol / Cymhorthdal Incwm / Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio / Credyd Pensiwn / Budd-dâl Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor

☐ Rwyf i'n cael o leiaf un o'r lwfansau isod (dilëwch fel y bo'n briodol):
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth / Taliad Annibyniaeth Personol / Lwfans Anabledd Difrifol / Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini / Budd-dâl Analluogrwydd / Lwfans Gofalwr

☐ Rwyf i'n geisiwr gwaith cofrestredig ac rwyf wedi bod felly am o leiaf chwe wythnos yn ddi-dor hyd at ddyddiad y cais hwn

☐ Mae'r unig incwm rwyf i'n ei gael, neu mae fy nheulu yn ei gael, yn dod o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau

☐ **Rwyf wedi amgáu tystiolaeth i gefnogi fy nghais** (gall hyn fod ar ffurf llythyr cyfredol oddi wrth Cyllid a Thollau EM, y Cyngor Lleol, Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Gwaith, sy'n cadarnhau'ch hawl, neu nodyn ysgrifenedig yn cadarnhau mai budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yw'r unig incwm a gewch chi, neu'r unig incwm mae'ch teulu yn ei gael)

## Datganiad:

Rwyf wedi darllen yr holl amodau a roddwyd yn y meini prawf ac rwyf yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Cytunaf i roi gwybod i'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes os bydd fy amgylchiadau yn newid, ac fe allai hynny olygu na fyddaf i bellach â'r hawl i gael hepgor ffioedd. Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: ____________________